

# Mewnforio cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid

Mae 'mewnforio' yn cyfeirio at gynhyrchion sy'n dod o du allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) yn unig. Gall mewnforio cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid neu gynhyrchion pysgodfeydd olygu peryglon posibl, a dylai pob busnes sy'n ymwneud â'r broses hon fod yn ymwybodol ohonynt.

Mae hyn yn cynnwys y grwpiau bwyd canlynol:

- cig, gan gynnwys cig ffres, cynhyrchion cig, cig wedi'i friwio (minced meat), paratoadau cig, cig dofednod (poultry), cwningen, cig anifeiliaid hela a gaiff eu ffermio a chig anifeiliaid hela gwyllt
- wyau a chynhyrchion wyau
- pysgod a chynhyrchion pysgod
- llaeth a chynhyrchion llaeth
- mêl
- gelatin a chynhyrchion gelatin

Mae'n rhaid dilyn rheolau tebyg wrth fewnforio cynhyrchion cyfansawdd sy'n cynnwys cynnyrch anifeiliaid.

Dyma ddiffiniad o gynnyrch cyfansawdd:

- bwyd sy'n cynnwys cynhyrchion anifeiliaid wedi'u prosesu a chynhyrchion sy'n deillio o blanhigion e.e. tiwna mewn tun
- lle mae prosesu'r cynnyrch cynradd yn hanfodol er mwyn cynhyrchu'r bwyd terfynol

## Mewnforio o wlad y tu allan i'r UE

Mae gofyn i'r rheiny sy'n ymwneud â mewnforio cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid o wlad y tu allan i'r UE:

- roi gwybod i'r Arolygfa Ffin cyn i unrhyw gynhyrchion o'r fath gyrraedd
- cyflwyno unrhyw ddogfennau perthnasol i'r Arolygfa Ffin, gan gynnwys y dystysgrif iechyd wreiddiol. Mae'r math o dystysgrif sydd ei hangen yn dibynnu ar y math o gynnyrch a'r wlad tarddiad
- cyflwyno'r nwyddau i'r Arolygfa Ffin i'w gwirio'n filfeddygol
- talu'r holl gostau sydd ynghlwm ag arolygu'r nwyddau
- cadw'r CVED, a roddir ar ôl cael caniatâd, am flwyddyn ar y pwynt cyntaf y mae'r nwyddau yn ei gyrraedd yn yr UE

Nid oes angen i unrhyw ychwanegion bwyd sy'n cael eu pecynnu ar gyfer y defnyddiwr terfynol sy'n cynnwys glwcosamin, chondroitin, neu chitosan, gael eu mewnforio drwy Arolygfa Ffin ac nid ydynt yn destun gwiriadau milfeddygol.

## Arolygfeydd Ffin

Mae Arolygfeydd Ffin yn trin a thrafod cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid sy'n cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig (DU). Mae'n rhaid cyflwyno'r cynhyrchion hyn mewn arolygfa ffin ddynodedig

er mwyn cynnal gwiriadau milfeddygol.

Ni fydd nwyddau sy'n methu'r gwiriadau hyn yn cael dod mewn i'r DU, ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu dinistrio. Mae'n rhaid i gynhyrchion anifeiliaid sy'n dod i'r DU o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE fod yn destun gwiriadau mewnfario mewn arolyga ffin pan ddônt i mewn i'r UE.

Mae rhestr lawn o'r mesurau rheoli ar gael ym [Mhenderfyniad y Comisiwn 2007/275/EC](#)

Mae dau fath o arolygfa ffin sy'n ymdrin â chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid – y rheiny sy'n ymdrin â chynhyrchion sydd i'w bwyta gan bobl a'r rheiny nad ydynt. Mae ambell i arolygfa sy'n eithriad ac sy'n prosesu'r ddau.

Dyma restr o'r wahanol fathau o Arolygfeydd Ffin yn y DU ar wefan [Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig \(DEFRA\)](#) (Saesneg yn unig).

## **Cylchredeg yn rhydd o fewn yr UE**

Cylchredeg yn rhydd yw symud cynhyrchion bwyd yn rhydd o fewn yr UE heb unrhyw wiriadau tollau. Mae'n rhaid ail-allforio nwyddau sy'n methu gwiriadau ar ôl cyrraedd y DU y tu allan i'r UE, a'u dinistrio.

Gellir cylchredeg nwyddau a fewnforir yn rhydd o fewn yr UE unwaith y maent wedi cael Dogfen Mynediad Milfeddygol Gyffredin.

Unwaith y mae'r Ddogfen hon wedi'i rhoi, gellir cylchredeg y cynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid yn rhydd o fewn yr UE.

I gael gwybodaeth am gostau'r gwiriadau milfeddygol, cymerwch gip ar y ddeddfwriaeth briodol ar gyfer Cymru ar wefan [Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus \(OPSI\)](#).

## **Canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar fewnforion**

Mae canllawiau ar gael gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y rheolau ar hylendid bwyd, yn ogystal â dehongliad ohonynt. Mae'r canllawiau yn egluro nifer o bwyntiau sy'n ymwneud â mewnfario bwyd ar y rheolau ar hylendid bwyd (Rheoliad (CE) Rhif [852/2004](#), [853/2004](#) a [854/2004](#)), ac ar y rheolau ar reolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol (Rheoliad (CE) Rhif [882/2004](#)).

od y canllawiau yw helpu busnesau bwyd ac awdurdodau'r llywodraeth i ddeall y rheoliadau hyn yn well ac i'w gweithredu yn gywir ac yn gyson.

Mae'r canllawiau yn cyfeirio'n bennaf at ofynion hylendid bwyd newydd yr UE a'r goblygiadau o ran mewnfario bwyd. Yn ogystal â gofynion hylendid bwyd, mae'n bosibl bod mesurau eraill yn gymwys, gan gynnwys gofynion iechyd ac iechyd planhigion. Lle bo'n briodol, mae'r canllawiau yn cyfeirio at fesurau o'r fath.

## **Canllaw cam wrth gam ar fewnfario o wledydd y tu allan i'r UE sydd wedi'u cymeradwyo**

I gael rhagor o wybodaeth am:

- wledydd y tu allan i'r UE sydd wedi'u cymeradwyo
- gofynion ar gyfer allforio cynhyrchion pysgodfeydd neu folysgiaid dwyragennog i'r UE
- y dystysgrif iechyd model sydd ei hangen
- unrhyw gyfyngiadau mewnfario eraill

Mae'r canllaw cam wrth gam ar fewnforio o wledydd y tu allan i'r UE sydd wedi'u cymeradwyo ar gael drwy'r ddolen isod (Saesneg yn unig)

Importing fishery products and bivalve molluscs from approved non-EU countries to the UK: Step-by-step guide (370.77 KB)